

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 11 Ionawr, 2018 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cyngorydd Evan Jones
Y Cyngorydd Alun Thomas
Y Cyngorydd Megan Tomos
Y Cyngorydd Geraint Hughes
Y Cyngorydd Margaret Fernley
Y Cyngorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cyngorydd Jên Morris
Y Cyngorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyngr. Myfanwy Jones a Dafydd Jones

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Arriva- Y Cyngor yn anhapus gyda'r broses ymgynghori. Y Clerc wedi anfon e-bost i ddatgan siom y gymuned. Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn cadarnhau derbyn y sylwadau a bydd mwy o ymdrech i gyfathrebu yn glir yn cael ei wneud yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae'r amserlen wedi newid unwaith eto, nid yw bob bws o Fethesda i Fangor yn mynd drwy Tregarth, rhai yn aros ar yr A5. Y Cyng. Megan Tomos wedi ysgrifennu at y Cyngr. Dafydd Meurig a Paul Rowlinson, ac hefyd at Sian Gwenllian a Hywel Williams AS.

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- trafodwyd bod y palmant ar y ddwy ochr i'r ffordd angen sylw brys i'r mwsogl a'r cloddiau. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r Cyngr. Geraint Hughes a Alun Thomas, cyn gynted a bo modd.

Eglwys Llan- y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu unwaith eto.

Tal y Bont- Cyngor Gwynedd wedi bod i lanhau'r draeni.

System atal-llifogydd – adroddwyd bod cloddiau wedi eu difrodi gan bwysau'r dŵr, ac bod gwaith ar y draeni ac ail-ffensio wedi ei gwneud. Penderfynwyd gwneud cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am holl gostau'r system.

Mynwent Llan- penderfynwyd ail-wahodd y Parch. John Matthews i ddod at y Cyngor i drafod y fynwent.

Lôn Goed- yn dilyn cais y Cyngor i gael glanhau'r ffoes a gosod bolardiau, mae Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle ond wedi nodi nid oes arian ar gyfer gosod bolardiau. Y gwaith glanhau dal angen ei wneud, ac angen rhyw fath o arwyddion i hysbysu bobl bod ffoes yno.

Parc Cenedlaethol- adroddwyd bod Cynllun Partneriaeth Tirwedd Carneddau wedi penodi 2 swyddog newydd. Penderfynwyd gwahodd y swyddogion i un o'r cyfarfodydd i drafod y cynllun gyda ni.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Llais Ogwan	£18.00
Swyddfa Archwilio Cymru	£172.80
Neuadd Talgai	£25.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- llythyr gan Partneriaeth Ogwen-manylion am y cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol. Penderfynwyd bod angen mwy o amser i ystyried y cais, a gwahodd y Cyng. Dafydd Meurig i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.

Cyflwynwyd- e-bost gan Llywodraeth Cymru-Cyfraith Cynllunio yng Nghymru-angen anfon unrhyw sylwadau erbyn 1 Mawrth 2018.

Cyflwynwyd- e-bost gan Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru-gweithdy i'w gynnal yn Neuadd Ogwen 24 Chwefror 10.00 – 16.00 i gofnodi mân enwau dyffryn Ogwen, ardaloedd cyfagos, megis Rhiwlas a Nant y Benglog a'u gosod ar fap digidol. Y Clerc i roi'r wybodaeth ar wefan Ogwen.

Cyflwynwyd- e-bost gan Gyngor Gwynedd -y Cyng. Dafydd Meurig yn holi os oedd y Cyngor yn hapus gyda trefniadau torri gwair yr ardal llynedd, ac i ystyried cael prisiau am wneud toriadau ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi holi am brisiau yn y gorffennol, ond ddim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Y Clerc i holi unwaith eto.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Canolfan Cefnfaes – adroddwyd bod cyfarfod wedi bod i drafod dyfodol y ganolfan, gan bod Cyngor Gwynedd yn awyddus i drosglwyddo'r adeilad i'r gymuned. Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor ddiddordeb mabwysiadu Canolfan Cefnfaes.

8. Adroddiad Cyllid

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

9. Rhoddion

Penderfynwyd gohurio'r eitem yma tan y cyfarfod nesaf. Pawb i edrych ar y rhestr ceisiadau a'i drafod mis nesaf.

10. Archeb 2018-19

Penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £7500. Y Clerc i anfon y ffurflenni i Gyngor Gwynedd erbyn diwedd mis Ionawr.

11. Y Mynydd

Penderfynwyd ychwanegu rheol newydd at y Rheolau Mynydd cyfredol, ynglŷn a trosglwyddo/is-osod hawliau pori. Y Clerc i anfon copi o'r Rheolau a derbynebaw ffioedd eleni i'r porwyr.

12. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

Ceisiadau Cynllunio:

NP3/21/14B

2 Pencarreg, Nant Ffrancon

Trosi a newidiadau i'r tŷ i greu dau uned llety hunan-arlwyo tymor byr. Adeiladu sied storfa bren a decin pren yn yr ardd gefn.

Penderfyniad-dim sylw

13. Materion Brys

Caeau dros y ffordd i Capel Bethlehem- sydd yn achosi pryder mawr i'r trigolion pan mae'n bwrw glaw trwm, oherwydd nad yw'r ffosydd yn cael eu clirio. Mae'n achosi llawer o nosweithiau di-gysgu i't trigolion sy'n poeni am eu eiddo yn cael eu difrodi gan lifogydd. Mae angen trefnu cyfarfod gyda Stâd Penrhyn a Hywel Williams AS.

Cloddiau - adroddwyd bod yna lawer o gloddiau yn yr ardal sydd ddim yn cael eu torri. Penderfynwyd ysgrifennu at Stâd Penrhyn ynglŷn a'i tenantiaid.

Ffyrdd angen eu glanhau - adroddwyd bod y ffordd rhwng Bronydd Isaf ac Aber yn dew hefo mwd ac bod llawer o 'potholes' ar hyd y ffordd. Adroddwyd hefyd bod Lôn Goed angen ei glanhau. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.